

Agenda – Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd **Gareth Williams**
Dyddiad: Dydd Llun, 24 Medi 2018 Clerc y Pwyllgor
Amser: 13.30 0300 200 6362
SeneddMCD@cynulliad.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2 Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru): Sesiwn dystiolaeth

13.30

(Tudalennau 1 – 7)

Rebecca Evans AC, y Gweinidog Tai ac Adfywio

Emma Williams, Llywodraeth Cymru

Helen Kellaway, Llywodraeth Cymru

CLA(5)–22–18 – Papur briffio

[Bil Rhentu Cartrefi \(Ffioedd etc.\) \(Cymru\). fel y'i cyflwynwyd](#)

[Memorandwm esboniadol](#)

[Datganiad ar y bwriad polisi](#)

3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

14.30

(Tudalennau 8 – 11)

CLA(5)–22–18 – Papur 1 – Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

Offerynnau'r Penderfyniad Negyddol

3.1 SL(5)254 – Gorchymyn Addysg a Gwella Iechyd Cymru (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Rhwymedigaethau) (Cymru) 2018



3.2 SL(5)255 –Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2018

4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

Offerynnau'r Penderfyniad Negyddol

4.1 SL(5)253 – Rheoliadau Trwyddedu Petrolïwm (Ffioedd) (Cymru) 2018

(Tudalennau 12 – 53)

CLA(5)–22–18 – Papur 2 – Adroddiad

CLA(5)–22–18 – Papur 3 – Rheoliadau

CLA(5)–22–18 – Papur 4 – Memorandwm Esboniadol

Offerynnau Cyfansawdd Penderfyniad Negyddol

4.2 SL(5)243 – Cynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon (Dirymu ac Arbedion)

(Tudalennau 54 – 121)

CLA(5)–22–18 – Papur 5 – Adroddiad

CLA(5)–22–18 – Papur 6 – Rheoliadau

CLA(5)–22–18 – Papur 7 – Memorandwm Esboniadol

Offerynnau'r Penderfyniad Cadarnhaol

4.3 SL(5)226 – Rheoliadau'r Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018 (Diddymu) 2018

(Tudalennau 122 – 136)

CLA(5)–22–18 – Papur 8 – Adroddiad

CLA(5)–22–18 – Papur 9 – Rheoliadau

CLA(5)–22–18 – Papur 10 – Memorandwm Esboniadol

5 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3 ond sydd â goblygiadau o ganlyniad i ymadawriad y DU â'r UE

Offerynnau'r Penderfyniad Negyddol

5.1 SL(5)252 – Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2018

(Tudalen 137)

CLA(5)-22-18 – Papur 11 – Adroddiad

6 Papurau i'w nodi

14.45

6.1 Llythyr gan y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol: Bil Cyllido Gofal Plant Cymru

(Tudalennau 138 – 144)

CLA(5)-22-18 – Papur 12 – Llythyr gan y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol, 17 Medi 2018

6.2 Llythyr at Arweinydd y Tŷ: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 – rheoliadau a wneir o dan Atodlen 4

(Tudalennau 145 – 146)

CLA(5)-22-18 – Papur 13 – Llythyr gan Arweinydd y Tŷ, 17 Medi 2018

7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

14.50

8 Trafod y Dystiolaeth: Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc) (Cymru)

9 Llywodraethiant yn y DU ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd: Cytundeb Rhyng-Sefydliadol Drafft

(Tudalennau 147 – 150)

CLA(5)-22-18 – Papur 14 – Cytundeb Drafft

10 Pontio amaethyddol yn yr Alban

(Tudalennau 151 – 153)

CLA(5)–22–18 – Papur 15 – Papur Briffio'r Gwasanaeth Ymchwil

11 Gwaith diweddar Sefydliad y Llywodraeth ar waith rhynglywodraethol

(Tudalennau 154 – 157)

CLA(5)–22–18 – Papur 16 – Papur Briffio'r Gwasanaeth Ymchwil

Sesiwn Gyhoeddus

12 Bil Awtistiaeth (Cymru) – Sesiwn dystiolaeth 1

15.30

(Tudalennau 158 – 166)

Paul Davies AC, yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil

Steve Boyce, Comisiwn y Cynulliad

Enrico Carpanini, Comisiwn y Cynulliad

CLA(5)–22–18 – Papur briffio

[Bil Awtistiaeth \(Cymru\), fel y'i cyflwynwyd](#) (PDF 93KB)

[Memorandwm Esboniadol](#) (PDF, 1MB)

[Datganiad ar y Bwriad Polisi](#)

13 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

16.30

14 Trafod y Dystiolaeth: Bil Awtistiaeth (Cymru)

15 Protocol Drafft gyda Llywodraeth Cymru – Craffu ar Reoliadau a wneir o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

CLA(5)-22-18 – Papur 17 – Protocol Drafft gyda Llywodraeth Cymru (Saesneg yn unig)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 3

Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir 17 Medi 2018

SL(5)238 – Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) (Diwygio) 2018

Gweithdrefn: Negyddol

Mae adran 108 o Ddeddf Addysg 2002 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i ragnodi drwy Orchymyn drefniadau asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Mae Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) 2013 (“Gorchymyn 2013”) yn rhoi effaith gyfreithiol i'r trefniadau asesu ar gyfer darllen a rhifedd i ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion a gynhelir gan awdurdod lleol (ac eithrio unrhyw un a sefydlwyd mewn ysbyty) yng Nghymru. Yn benodol, mae Gorchymyn 2013 yn darparu bod rhaid i'r pennaeth anfon canlyniadau'r asesiadau darllen a rhifedd naill ai i'r Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (“y SCYA”) neu at Weinidogion Cymru.

Nid yw'r SCYA yn casglu canlyniadau'r asesiadau darllen a rhifedd mwyach. Rhaid i ganlyniadau'r asesiadau yn y dyfodol gael eu hanfon at Weinidogion Cymru yn unig. Yn unol â hynny, mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn 2013 er mwyn dileu unrhyw gyfeiriad at y SCYA (erthygl 2(a) ac (e)).

O'r adeg y daw'r Gorchymyn hwn i rym bydd disgybl yn gallu sefyll fersiwn ar-lein o'r asesiadau. Bydd y fersiynau ar-lein o'r asesiadau yn cael eu marcio'n awtomatig gan feddalwedd gyfrifiadurol a bydd y canlyniadau yn cael eu cyflwyno'n awtomatig i Weinidogion Cymru gan feddalwedd gyfrifiadurol. Yn yr achosion hynny nid yw'r ddyletswydd ar y pennaeth i farcio'r asesiadau yn unol â chynllun marcio'r PC (a ddiffinnir yn erthygl 2(1) o Orchymyn 2013) a chyflwyno marciau'r asesiadau i Weinidogion Cymru yn briodol. Yn unol â hynny, mae erthygl 2(b), (c) a (d) o'r Gorchymyn hwn yn



datgymhwyso'r dyletswyddau hynny ar gyfer y disgyblion hynny sy'n sefyll y fersiynau ar-lein o'r profion.

Rhiant-Ddeddf: Ddeddf Addysg 2002

Fe'u gwnaed ar: 03 Gorffennaf 2018

Fe'u gosodwyd ar: 04 Gorffennaf 2018

Yn dod i rym ar: 01 Medi 2018

SL(5)244 – Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Aelodaeth a Phenodi) (Cymru) (Diwygio) 2018

Gweithdrefn: Negyddol

Mae Rhan 2 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") yn rhoi swyddogaethau i Gyngor y Gweithlu Addysg ("y Cyngor") mewn perthynas â phersonau y mae'n ofynnol iddynt gofrestru yn y gofrestr y mae'r Cyngor yn ei chynnal yn unol ag adran 9 o'r Ddeddf honno ("Personau Cofrestredig"). Mae'r categorïau o Personau Cofrestredig wedi eu nodi yn Nhabl 1 ym mharagraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2014.

Mae Atodlen 1 i Ddeddf 2014 yn darparu y bydd gan y Cyngor 14 o aelodau a benodir gan Weinidogion Cymru. Rhaid i saith o'r aelodau hynny gael eu penodi o blith enwebeion sefydliadau a nodir mewn Rheoliadau ("Cyrff Enwebu"). Mae'r rhestr o'r Cyrff Enwebu wedi ei nodi yn Atodlen 2 i Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Aelodaeth a Phenodi) (Cymru) 2014 ("Rheoliadau 2014").

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rhan 1 o Atodlen 2 i Reoliadau 2014 er mwyn hepgor paragraff 1 (y cofnod ar gyfer Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (Cymru)) a pharagraff 7 (y cofnod ar gyfer Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr). Mae'r Undebau hynny wedi uno bellach i greu undeb newydd sef yr Undeb Addysg Cenedlaethol. Felly, er mwyn adlewyrchu'r broses uno honno mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol wedi ei ychwanegu at y rhestr o'r cyrff a nodir yn Rhan 1 o Atodlen 2 i Reoliadau 2014 (rheoliad 2(a)).



Diwygiwyd y categorïau o Bersonau Cofrestredig gan Orchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Cofrestru Gweithwyr Ieuenctid, Gweithwyr Cymorth Ieuenctid ac Ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith) 2016 er mwyn cynnwys gweithwyr ieuenctid, gweithwyr cymorth ieuenctid, ac ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith (“Categoriâu Newydd”).

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 2 i Reoliadau 2014 er mwyn caniatáu i gyrff sy'n cynrychioli'r Categoriâu Newydd o Bersonau Cofrestredig enwebu personau i ddod yn aelodau o'r Cyngor. Yn unol â hynny mae'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu at y rhestr o Gyrff Enwebu y canlynol (rheoliad 2(b))—

- (a) Council for Wales of Voluntary Youth Services Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol;
- (b) Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru;
- (c) National Training Federation for Wales Ltd; a
- (ch) Safonau Addysg Hyfforddiant Cymru.

Rhiant–Ddeddf: Ddeddf Addysg (Cymru) 2014

Fe'u gwnaed ar: 17 Gorffennaf 2018

Fe'u gosodwyd ar: 19 Gorffennaf 2018

Yn dod i rym ar: 08 Awst 2018



SL(5)245 – Rheoliadau Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 (Rhyddhad Adfer Safle) (Diwygio) 2018

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio adran 29(1)(a) o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017.

Mae'r gwelliant a wneir gan y Rheoliadau hyn yn galluogi'r rhyddhad adfer safle i gael ei gymhwyso i waredu deunydd sy'n cynnwys uwchbridd yn unig. Bydd y gwelliant yn cael effaith mewn perthynas â gwarediadau trethadwy a wnaed ar y dyddiad y daw'r rheoliadau i rym neu ar ôl hynny.

Rhiant–Ddeddf: Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

Fe'u gwnaed ar:

Fe'u gosodwyd ar:

Yn dod i rym ar:



Eitem 4.1

SL(5)253 - Rheoliadau Trwyddedu Petrolewm (Ffioedd) (Cymru) 2018

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru godi ffioedd mewn cysylltiad â chais iddynt am drwydded petrolewm o dan Ddeddf Petrolewm 1998 ac ar gyfer cydsyniadau sy'n ofynnol o dan y trwyddedau hynny ar gyfer gweithgareddau a materion amrywiol a restrir.

Mae Adran 23 o Ddeddf Cymru 2017 yn trosglwyddo swyddogaethau trwyddedu o dan Ran 1 o Ddeddf Petrolewm 1998 i Weinidogion Cymru, mewn perthynas ag ardal arfordir Cymru. Daw'r darpariaethau hynny i rym ar 1 Hydref 2018 ac felly mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud ar ymarfer rhagweladwy o bwerau.

Y weithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd tri phwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

- 1. Rheol Sefydlog 21.3(i) – mae'r offeryn yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu i unrhyw awdurdod lleol neu gyhoeddus yn gydnabyddiaeth am unrhyw drwydded neu gydsyniad neu am unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath;**

Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaeth sy'n rhagnodi'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru mewn perthynas â cheisiadau iddynt am drwydded petroliwm ac am gydsyniadau amrywiol mewn perthynas â thrwyddedau petroliwm. Bydd yn rhaid gwneud taliadau o'r fath i Gronfa Gyfunol Cymru yn unol ag adran 188(13) o Ddeddf Ynni 2004.

- 2. Rheol Sefydlog 21.3 (ii) - mae'r offeryn yn cynnwys darpariaethau sy'n codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.**

Mae Rheoliad 4 yn nodi fformiwla ar gyfer penderfynu ar y ffi sy'n daladwy wrth wneud cais i Weinidogion Cymru am ganiatâd ar gyfer rhaglen datblygu a chynhyrchu. Y ffi sy'n daladwy yw swm sefydlog (o £595) a gaiff ei luosi â nifer y dyddiau y mae'n rhaid i swyddog eu treulio'n penderfynu ar y cais.



Gan hynny, ni fydd y gost yn hysbys pan ymgeisydd yn cyflwyno'r cais. Bydd yr ymgeisydd, fodd bynnag, yn ymrwmo i dalu cost cais hwnnw trwy gyflwyno'r cais.

Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau hyn yn nodi mai'r "*rationale for this approach is this type of application varies greatly from one case to another. If a standard fee was applied it would result in more straightforward applications subsidising the cost of more complex applications which take longer to determine*".

3. Rheol Sefydlog 21.3 (ii) - mae'r offeryn yn cynnwys darpariaethau sy'n codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

Mae Rheoliad 8 (3) yn cynnwys darpariaeth sy'n nodi bod modd adennill unrhyw ffioedd sy'n ddyledus o dan y Rheoliadau hyn ar ffurf dyled sifil. Felly, bydd Gweinidogion Cymru yn gallu adennill symiau dyledus yn ddiannod drwy'r llysoedd ynadon yn unol â Deddf Llysoedd Ynadon 1980.

Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn nodi "*without this provision, the Welsh Ministers would first have to litigate to prove the debt and obtain a court judgement before it could then seek to enforce the judgment and recover the sums due. This would involve unnecessary expense to the public purse*".

Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb y llywodraeth.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

14 Medi 2017



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2018 Rhif 806 (Cy. 162)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Bwyd a Bwyd
Anifeiliaid (Diwygiadau a
Dirymiadau Amrywiol) (Cymru)
2018

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau o ran Cymru i nifer o ddarnau o is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â bwyd a bwyd anifeiliaid.

Mae rheoliad 11 yn diwygio Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 (O.S. 2006/32 (Cy. 5)) i ddiwygio'r diffiniad o Reoliad (EC) 852/2004 ar hylendid deunyddiau bwyd (OJ Rhif L 139, 30.4.2004, t. 1) er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheoliad hwnnw gael ei ddarllen gyda'r Rheoliad Comisiwn newydd (EU) Rhif 2017/2158 sy'n sefydlu mesurau lliniaru a lefelau meincnodi ar gyfer lleihau presenoldeb acrylamid mewn bwyd (OJ Rhif L 304, 21.11.2017, t. 24).

Mae rheoliad 25 yn diwygio Rheoliadau Suldoedd Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau (Cymru) 2013 (O.S. 2013/2750) (Cy. 267)) i weithredu Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 1040/2014 sy'n diwygio Cyfarwyddeb y Cyngor 2001/112/EC sy'n ymwneud â suldoedd ffrwythau a chynhyrchion tebyg penodol a fwriedir i bobl eu hyfed i addasu ei Hatodiad I i gynnydd technegol (OJ Rhif L 288, 2.10.2014, t. 1). Mae hyn yn caniatáu i broteinau planhigion o wenith, pys a thatws gael eu defnyddio i dryloywi cynhyrchion y mae Rheoliadau Suldoedd Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau (Cymru) 2013 yn gymwys iddynt.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud mân ddiwygiadau amrywiol eraill i ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â bwyd a bwyd anifeiliaid, yn enwedig gan ddiwygio hen gyfeiriadau at ddeddfwriaeth ddomestig ac at offerynnau gan yr UE.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal aseiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2018 Rhif 806 (Cy. 162)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Bwyd a Bwyd
Anifeiliaid (Diwygiadau a
Dirymiadau Amrywiol) (Cymru)
2018

Gwnaed 2 Gorffennaf 2018

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 4 Gorffennaf 2018

Yn dod i rym 26 Gorffennaf 2018

CYNNWYS

RHAN 1

Cyflwyniad

1. Enwi, cymhwyso a chychwyn

RHAN 2

Diwygiadau i is-ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â
bwyd a bwyd anifeiliaid

2. Rheoliadau Bwyd (Marcio Lotiau)
1996
3. Rheoliadau Bwydydd y Bwriedir eu
Defnyddio mewn Deietau Egri
Cyfyngedig at Golli Pwysau 1997
4. Rheoliadau Bara a Blawd 1998
5. Rheoliadau Bwyd Meddygol (Cymru)
2000
6. Rheoliadau Echdynion Coffi ac
Echdynion Sicori (Cymru) 2001
7. Rheoliadau Cynhyrchion Coco a
Siocled (Cymru) 2003

8. Rheoliadau Cynhyrchion Siwgr Penodedig (Cymru) 2003
9. Rheoliadau Bwydydd Proses sydd wedi'u Seilio ar Rawn a Bwydydd Babanod ar gyfer Babanod a Phlant Ifanc (Cymru) 2004
10. Rheoliadau Bwyd a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004
11. Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006
12. Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd) (Cymru) 2007
13. Rheoliadau Ychwanegu Fitaminau, Mwynau a Sylweddau Eraill (Cymru) 2007
14. Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2007
15. Rheoliadau Deunyddiau Bwyd sydd wedi'u Rhewi'n Gyflym (Cymru) 2007
16. Rheoliadau Cynhyrchion Penodedig o Tsieina (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) 2008
17. Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Rheoli Clefydau) (Cymru) 2008
18. Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009
19. Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2009
20. Rheoliadau Arbelydru Bwyd (Cymru) 2009
21. Rheoliadau Llestri Cegin Plastig (Amodau ar Fewnforion o Tsieina) (Cymru) 2011
22. Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012
23. Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2013
24. Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013
25. Rheoliadau Suddoedd Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau (Cymru) 2013
26. Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Cynnwys Cig etc. (Cymru) 2014
27. Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016

18

28. Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid
(Hylendid, Samplu etc. a Gorfodi)
(Cymru) 2016

RHAN 3
Dirymiadau

29. Dirymiadau

- ATODLEN 1 — Yr Atodlen a roddir
yn lle Atodlen 3 i
Reoliadau Arbelydru
Bwyd (Cymru) 2009
- ATODLEN 2 — Yr Atodlen a roddir
yn lle Atodlen 4 i
Reoliadau Arbelydru
Bwyd (Cymru) 2009
- ATODLEN 3 — Y Rheoliadau sydd
wedi eu Dirymu

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan—

- (a) ac eithrio rheoliadau 4, 26 a 29, i'r graddau y mae rheoliad 29 fel y'i darllenir gydag Atodlen 3 yn dirymu Rheoliadau Esgyrn Cig Eidion (Diwygio) (Cymru) 1999 a Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol) (Siopau Cigyddion) (Diwygio) (Cymru) 2000, adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ("Deddf 1972")(1);
- (b) o ran rheoliadau 8(4)(b), 11(6)(a), 13(2), 21 a 26, baragraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf 1972(2);
- (c) o ran rheoliadau 4, 26 a 29, i'r graddau y mae rheoliad 29 fel y'i darllenir gydag Atodlen 3 yn dirymu Rheoliadau Esgyrn Cig Eidion (Diwygio) (Cymru) 1999 a Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol) (Siopau Cigyddion) (Diwygio)

(1) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a Rhan 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7).

(2) Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 ac fe'i diwygiwyd gan Ran 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 ac O.S. 2007/1388.

(Cymru) 2000, adrannau 16(1)(a) ac 48(1)(c) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(1).

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf 1972 mewn perthynas â—

- (a) rheoli a rheoleiddio gollwng yn fwriadol organeddau a addaswyd yn enetig, eu rhoi ar y farchnad a'u symud ar draws ffiniau(2);
- (b) mesurau sy'n ymwneud â bwyd (gan gynnwys diod), gan gynnwys cynhyrchu sylfaenol o ran bwyd a mesurau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid a gynhyrchir ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd neu a fwydir iddynt(3);
- (c) mesurau yn y meysydd milfeddygol a ffytoiechydol ar gyfer amddiffyn iechyd y cyhoedd(4);
- (d) mesurau mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd(5).

Fel y nodir uchod, mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf 1972, ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i gyfeiriadau penodol at yr Atodiadau penodedig i'r offerynnau a ganlyn gan yr UE gael eu dehongli fel cyfeiriadau at yr Atodiadau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd—

- (a) Atodiad I neu II i Reoliad (EC) Rhif 1925/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegu fitaminau a mwynau a sylweddau penodol eraill at fwydydd(6);
- (b) yr Atodiadau i Reoliad (EC) Rhif 1333/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegion bwyd(7);

-
- (1) 1990 p. 16. Diwygiwyd adrannau 16(1)(a) ac 48(1) gan baragraff 8 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p. 28).
 - (2) O.S. 2003/2901. Mae'r swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan y dynodiad hwn wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi.
 - (3) O.S. 2005/1971. Mae'r swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan y dynodiad hwn wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi.
 - (4) O.S. 2008/1792.
 - (5) O.S. 2010/2690.
 - (6) OJ Rhif L 404, 30.12.2006, t. 26, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2017/1203 (OJ Rhif L 173, 6.7.2017, t. 9).
 - (7) OJ Rhif L 354, 31.12.2008, t. 16, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2018/682 (OJ Rhif L 116, 7.5.2018, t. 5).

- (c) Atodiad I i Gyfarwyddeb 2009/32/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyd-ddynesu cyfreithiau'r Aelod-wladwriaethau ynglŷn â thoddyddion echdynnu a ddefnyddir wrth gynhyrchu deunyddiau bwyd a chynhwysion bwyd (Ail-lunio)(1);
- (d) Atodiad I i Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 10/2011 ar ddeunyddiau ac eitemau plastig y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd(2);
- (e) yr Atodiad i Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 579/2014(3).

I'r graddau y mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer pwerau o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, yn unol ag adran 48(4A)(4) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd cyn gwneud y Rheoliadau hyn.

Ymgynghorwyd yn agored ac yn dryloyw â'r cyhoedd wrth lunio a gwerthuso'r Rheoliadau hyn fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(5).

RHAN 1

Cyflwyniad

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau a Dirymadau Amrywiol) (Cymru) 2018.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 26 Gorffennaf 2018.

-
- (1) OJ Rhif L 141, 6.6.2009, t. 3, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn (EU) 2016/1855 (OJ Rhif L 284, 20.10.2016, t. 19).
 - (2) OJ Rhif L 12, 15.1.2011, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2018/831 (OJ Rhif L 140, 6.6.2018, t. 35).
 - (3) OJ Rhif L 160, 29.5.2014, t. 14, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 2016/238 (OJ Rhif L 45, 20.2.2016, t. 1).
 - (4) Mewnosodwyd adran 48(4A) gan baragraff 21 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999.
 - (5) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2017/228 (OJ Rhif L 35, 10.2.2017, t. 10).

RHAN 2

Diwygiadau i is-ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â bwyd a bwyd anifeiliaid

Rheoliadau Bwyd (Marcio Lotiau) 1996

2. Yn rheoliad 4 o Reoliadau Bwyd (Marcio Lotiau) 1996(1), hepgorer paragraff (f).

Rheoliadau Bwydydd y Bwriedir eu Defnyddio mewn Deietau Egni Cyfyngedig at Golli Pwysau 1997

3. Yn rheoliad 3(f) o Reoliadau Bwydydd y Bwriedir eu Defnyddio mewn Deietau Egni Cyfyngedig at Golli Pwysau 1997(2), yn lle “2(1)(a)” rhodder “2(1)”.

Rheoliadau Bara a Blawd 1998

4.—(1) Mae Rheoliadau Bara a Blawd 1998(3) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1)—

- (a) hepgorer y diffiniad o “flour treatment agent”;
- (b) yn y diffiniad o “food additive”, yn lle “the Miscellaneous Food Additives Regulations 1995” rhodder “Article 3(2)(a) of Regulation (EC) No 1333/2008 of the European Parliament and of the Council on food additives(4)”.

Rheoliadau Bwyd Meddygol (Cymru) 2000

5. Yn rheoliad 2 o Reoliadau Bwyd Meddygol (Cymru) 2000(5), yn lle'r diffiniad o “y Gyfarwyddeb” rhodder—

“ystyr “y Gyfarwyddeb” (*the Directive*)” yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 1999/21/EC ar fwydydd deietegol at ddibenion meddygol arbennig(6), fel y'i diwygiwyd

-
- (1) O.S. 1996/1502, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
 - (2) O.S. 1997/2182, a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/639 (Cy. 175); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
 - (3) O.S. 1998/141, a ddiwygiwyd gan O.S. 1999/1136 ac O.S. 2014/2303 (Cy. 227); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
 - (4) OJ Rhif L 354, 31.12.2008, t. 16, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2018/682 (OJ Rhif L 116, 7.5.2018, t. 5).
 - (5) O.S. 2000/1866 (Cy. 125), a ddiwygiwyd gan O.S. 2007/3573 (Cy. 316) ac O.S. 2008/2602 (Cy. 228); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
 - (6) OJ Rhif L 91, 7.4.1999, t. 29.

ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2013/26/EU(1);”.

Rheoliadau Echdynion Coffi ac Echdynion Sicori (Cymru) 2001

6.—(1) Mae Rheoliadau Echdynion Coffi ac Echdynion Sicori (Cymru) 2001(2) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 7(3), yn lle’r geiriau o “â pharagraffau 1 a 2” hyd at “i bobl eu bwyta” rhodder “ag Atodiad 3 i Reoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a’r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gyflawnir i sicrhau y caiff cydymffurfedd â chyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd, rheolau iechyd anifeiliaid a rheolau lles anifeiliaid ei wirio(3)”.

(3) Hepgorer rheoliad 8.

Rheoliadau Cynhyrchion Coco a Siocled (Cymru) 2003

7.—(1) Mae Rheoliadau Cynhyrchion Coco a Siocled (Cymru) 2003(4) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1), hepgorer y diffiniadau o “Cytundeb AEE” a “Gwladwriaeth yr AEE”.

(3) Yn rheoliad 7(2)(a), yn lle “Reoliadau 1996” rhodder “Erthygl 9(1)(b) o Reoliad (EU) Rhif 1169/2011(5)”.

(4) Hepgorer rheoliad 12.

Rheoliadau Cynhyrchion Siwgr Penodedig (Cymru) 2003

8.—(1) Mae Rheoliadau Cynhyrchion Siwgr Penodedig (Cymru) 2003(6) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2, hepgorer y diffiniadau o “Cytundeb yr AEE” a “Gwladwriaeth yr AEE”.

(3) Hepgorer rheoliad 11.

-
- (1) OJ Rhif L 158, 10.6.2013, t. 376.
- (2) O.S. 2001/1440 (Cy. 102), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.
- (3) OJ Rhif L 165, 30.4.2004, t. 1, fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2018/455 (OJ Rhif L 77, 20.3.2018, t. 4).
- (4) O.S. 2003/3037 (Cy. 285), a ddiwygiwyd gan O.S. 2005/3254 (Cy. 247) ac O.S. 2014/2303 (Cy. 227).
- (5) OJ Rhif L 304, 22.11.2011, t. 18, fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) 2015/2283 Senedd Ewrop a’r Cyngor (OJ Rhif L 327, 11.12.2015, t. 1) ac fel y’i cywirwyd gan y Corigenda a nodir yn OJ Rhif L 247, 13.9.2012, t. 17 ac OJ Rhif L 266, 30.9.2016, t. 7.
- (6) O.S. 2003/3047 (Cy. 290), a ddiwygiwyd gan O.S. 2005/3254 (Cy. 247); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(4) Yn Atodlen 1—

(a) yn y tabl—

(i) yng nghofnod 5, yng ngholofn 2, yn is-baragraff (c), yn lle “pharagraff 4” rhodder “pharagraff 3”;

(ii) yng nghofnod 11, yng ngholofn 2, yn lle “pharagraff (2)” rhodder “pharagraff 3”;

(b) yn nodyn 7—

(i) yn lle “Chyfarwyddeb 2009/32/EC Senedd Ewrop a’r Cyngor ar gyd-ddynesu cyfreithiau’r Aelod-Wladwriaethau ynglŷn â thoddyddion echdynnu a ddefnyddir wrth gynhyrchu bwydydd a chynhwysion bwyd (Ail-luniwyd)” rhodder “Chyfarwyddeb 2009/32/EC Senedd Ewrop a’r Cyngor ar gyd-ddynesu cyfreithiau’r Aelod-wladwriaethau ynglŷn â thoddyddion echdynnu a ddefnyddir wrth gynhyrchu bwydydd a chynhwysion bwyd (Ail-lunio) fel y diwygir Atodiad I iddi o bryd i’w gilydd(1)”;

(ii) yn lle “Reoliad (EC) Rhif 1333/2008 Senedd Ewrop a’r Cyngor ar ychwanegion bwyd” rhodder “Reoliad (EC) Rhif 1333/2008 Senedd Ewrop a’r Cyngor ar ychwanegion bwyd fel y diwygir yr Atodiadau iddo o bryd i’w gilydd(2)”.

Rheoliadau Bwydydd Proses sydd wedi’u Seilio ar Rawn a Bwydydd Babanod ar gyfer Babanod a Phlant Ifanc (Cymru) 2004

9. Yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Bwydydd Proses sydd wedi’u Seilio ar Rawn a Bwydydd Babanod ar gyfer Babanod a Phlant Ifanc (Cymru) 2004(3), hepgorer y diffiniadau o “Cytundeb AEE” a “Gwladwriaeth AEE”.

Rheoliadau Bwyd a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004

10. Yn Rheoliadau Bwyd a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004(4), hepgorer rheoliad 9.

(1) OJ Rhif L 141, 6.6.2009, t. 3, fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn (EU) 2016/1855 (OJ Rhif L 284, 20.10.2016, t. 19).

(2) OJ Rhif L 354, 31.12.2008, t. 16, fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2018/682 (OJ Rhif L 116, 7.5.2018, t. 5).

(3) O.S. 2004/314 (Cy. 32), a ddiwygiwyd gan O.S. 2005/3254 (Cy. 247); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(4) O.S. 2004/3220 (Cy. 276), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006

11.—(1) Mae Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad sy'n dechrau gyda “mae i “Penderfyniad 2006/766”” —

- (a) hepgorer ““Rheoliad 809/2011” (“*Regulation 809/2011*”),”;
- (b) yn lle “, “Rheoliad 16/2012” (“*Regulation 16/2012*”), “Rheoliad 28/2012” (“*Regulation 28/2012*”), “Rheoliad 702/2013” (“*Regulation 702/2013*”) a “Rheoliad 1079/2013” (“*Regulation 1079/2013*”)” rhodder “a “Rheoliad 16/2012” (“*Regulation 16/2012*”)”.

(3) Yn lle rheoliad 32 rhodder—

“Cyfyngiad ar werthu llaeth crai a fwriedir ar gyfer ei yfed yn uniongyrchol gan bobl

32. Mae Atodlen 6 (cyfyngiadau ar werthu llaeth crai a fwriedir ar gyfer ei yfed yn uniongyrchol gan bobl) yn effeithiol.”

(4) Hpgorer rheoliad 33.

(5) Yn Atodlen 1—

- (a) yn y diffiniad o “Rheoliad 852/2004” yn lle “a Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 210/2013 ar gymeradwyo sefydliadau sy'n cynhyrchu egin yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 852/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor” rhodder “, Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 210/2013 ar gymeradwyo sefydliadau sy'n cynhyrchu egin yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 852/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor(2) ac ynghyd â Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 2017/2158 sy'n sefydlu mesurau lliniaru a lefelau meincnodi ar gyfer lleihau presenoldeb acrylamid mewn bwyd(3)”;
- (b) yn y diffiniad o “Rheoliad 853/2004”, yn lle “, Rheoliad 1020/2008 a Rheoliad 1079/2013” rhodder “a Rheoliad 1020/2008”;
- (c) yn y diffiniad o “Rheoliad 854/2004”, yn lle “, Rheoliad 1021/2008 a Rheoliad 1079/2013” rhodder “a Rheoliad 1021/2008”;
- (d) yn y diffiniad o “Rheoliad 882/2004”, yn lle “, Rheoliad 669/2009 a Rheoliad 702/2013” rhodder “a Rheoliad 669/2009”;

(1) O.S. 2006/31 (Cy. 5), a ddiwygiwyd gan O.S. 2010/893 (Cy. 92), O.S. 2012/1765 (Cy. 225), O.S. 2013/3007 (Cy. 298), O.S. 2013/3049 (Cy. 308) ac O.S. 2014/1858 (Cy. 192); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(2) OJ Rhif L 68, 12.3.2013, t. 24.

(3) OJ Rhif L 304, 21.11.2017, t. 24.

- (e) yn lle'r diffiniad o "Rheoliad 2073/2005" rhodder—

"ystyr "Rheoliad 2073/2005" ("*Regulation 2073/2005*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2073/2005 ar feini prawf microbiolegol ar gyfer deunyddiau bwyd(1) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2017/1495 yn diwygio Rheoliad (EC) Rhif 2073/2005 o ran *Campylobacter* mewn carcasau brwyliad(2);";

- (f) yn lle'r diffiniad o "Rheoliad 2074/2005" rhodder—

"ystyr "Rheoliad 2074/2005" ("*Regulation 2074/2005*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2074/2005 sy'n gosod mesurau gweithredu ar gyfer cynhyrchion penodol o dan Reoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ac ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol o dan Reoliad (EC) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor a Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n rhanddiddymu Rheoliad (EC) Rhif 852/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ac yn diwygio Rheoliadau (EC) Rhif 853/2004 ac (EC) Rhif 854/2004(3), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2017/1973(4);";

- (g) hepgorer y diffiniadau o "Rheoliad 809/2011", "Rheoliad 28/2012", "Rheoliad 702/2013" a "Rheoliad 1079/2013".

(6) Yn Atodlen 3—

- (a) ym mharagraff 2(2), yn lle "Atodiad i Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 579/2014" rhodder "Atodiad i Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 579/2014(5) fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd";

- (b) yn lle paragraff 14 rhodder—

-
- (1) OJ Rhif L 338, 22.12.2005, t. 1 fel y'i cywirwyd gan y Corrigenda a nodir yn OJ Rhif L 278, 10.10.2006, t. 32, OJ Rhif L 283, 14.10.2006, t. 62, OJ Rhif L 68, 13.3.2015, t. 90, OJ Rhif L 195, 20.7.2016, t. 82 ac OJ Rhif L 195, 20.7.2016, t. 83.
- (2) OJ Rhif L 218, 24.8.2017, t. 1.
- (3) OJ Rhif 338, 22.12.2005, t. 27, fel y'i cywirwyd gan y Corrigendwm a nodir yn OJ Rhif L 214, 9.8.2013, t. 11.
- (4) Rheoliad y Comisiwn (EU) 2017/1973 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 2074/2005 o ran rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion pysgodfeydd a ddaliwyd gan gychod sy'n cyhwfan baner Aelod Wladwriaeth ac a gyflwynir i'r Undeb wedi iddynt gael eu trosglwyddo mewn trydydd gwledydd ac yn sefydlu tystysgrif iechyd enghreifftiol ar gyfer y cynhyrchion hynny (OJ Rhif L 281, 31.10.2017, t. 21).
- (5) OJ Rhif L 160, 29.5.2014, t. 14, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 2016/238 (OJ Rhif L 45, 20.2.2016, t. 1).

“14. At ddibenion yr Atodlen hon bydd unrhyw eiriau neu ymadroddion a ddefnyddir yn yr Atodlen hon ac unrhyw eiriau neu ymadroddion Saesneg cyfatebol a ddefnyddir yn Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 579/2014 sy'n caniatáu rhanddirymiad o ddarpariaethau penodol yn Atodiad II i Reoliad (EC) Rhif 852/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran cludo olewau a brasterau hylifol dros y môr(1) neu Gyfarwyddeb y Comisiwn 98/28/EC sy'n caniatáu rhanddirymiad o ddarpariaethau penodol yng Nghyfarwyddeb 93/43/EEC ar hylendid deunyddiau bwyd o ran swmpgludo siwgr crai dros y môr(2) yn dwyn yr un ystyr ag ystyr y geiriau neu'r ymadroddion Saesneg cyfatebol hynny yn eu tro yn y Rheoliad hwnnw neu'r Gyfarwyddeb honno.”

(7) Yn Atodlen 3A, yn y diffiniad o “Rheoliad TSE y Gymuned”, yn lle'r geiriau o “Rheoliad (EC) Rhif 999/2001” hyd at “a roddwyd i'r Comisiwn” rhodder “Rheoliad (EC) Rhif 999/2001 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau ar gyfer atal, rheoli a dileu enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy penodol(3), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2017/893(4)”.

(8) Yn Atodlen 4—

(a) ym mharagraff 3—

(i) yn is-baragraff (dd), yn lle “Rheoliad y Cyngor 1906/90” rhodder “Rheoliad y Comisiwn 543/2008 a Rheoliad 1308/2013”;

(ii) yn is-baragraff (e), yn lle “Rheoliad y Cyngor 1907/90” rhodder “Rheoliad y Comisiwn 589/2008 a Rheoliad 1308/2013”;

(b) ym mharagraff 8—

-
- (1) OJ Rhif L 160, 29.5.2014, t. 14, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2016/238 (OJ Rhif L 45, 20.2.2016, t. 1).
- (2) OJ Rhif L 140, 12.5.1998, t. 10. Mae cyfeiriadau yn y Gyfarwyddeb hon at Gyfarwyddeb 93/43/EEC sydd wedi ei diddymu i'w dehongli fel cyfeiriadau at Reoliad (EC) 852/2004 ar hylendid deunyddiau bwyd (OJ Rhif L 139, 30.4.2004, t. 1) (gweler Erthygl 17(2) o Reoliad (EC) 852/2004).
- (3) OJ Rhif L 147, 31.5.2001, t. 1.
- (4) Rheoliad y Comisiwn (EU) 2017/893 sy'n diwygio Atodiadau I a IV i Reoliad (EC) Rhif 999/2001 Senedd Ewrop a'r Cyngor ac Atodiadau X, XIV a XV i Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011 o ran y darpariaethau ar brotein anifeiliaid wedi ei brosesu (OJ Rhif L 138, 25.05.2017, t. 92). Mae rhannau o'r diwygiadau sydd wedi eu gwneud gan y Rheoliad Comisiwn hwn yn gymwys o 1 Ionawr 2018, sydd ar ôl y dyddiad y mae'r diwygiadau sydd wedi eu gwneud gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2017/1972 diweddarach (OJ Rhif L 281, 31.10.2017, t. 14) yn gymwys.

- (i) hepgorer y diffiniadau o “Rheoliad y Cyngor 1906/90” a “Rheoliad y Cyngor 1907/90”;
- (ii) yn y lle priodol mewnoder—
 - (aa) “ystyr “Rheoliad y Comisiwn 543/2008” (“*Commission Regulation 543/2008*”) yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 543/2008 sy’n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 o ran y safonau marchnata ar gyfer cig dofednod(1);”;
 - (bb) “ystyr “Rheoliad y Comisiwn 589/2008” (“*Commission Regulation 589/2008*”) yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008 sy’n gosod rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 o ran y safonau marchnata ar gyfer wyau(2);”;
 - (cc) “ystyr “Rheoliad 1308/2013” (“*Regulation 1308/2013*”) yw Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a’r Cyngor sy’n sefydlu cyd-drefniadaeth ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol ac sy’n diddymu Rheoliadau’r Cyngor (EEC) Rhif 922/72, (EEC) Rhif 234/79, (EC) Rhif 1037/2001 ac (EC) Rhif 1234/2007(3);”.

(9) Hpgorer Atodlen 7.

-
- (1) OJ Rhif L 157, 17.6.2008, t. 46, fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 519/2013 (OJ Rhif L 158, 10.6.2013, t. 74). Mae cyfeiriadau yn Rheoliad y Comisiwn 543/2008 at Reoliad y Cyngor 1234/2007 sydd wedi ei ddiddymu i’w dehongli fel cyfeiriadau at Reoliad 1308/2013 (gweler Erthygl 230(2) o Reoliad 1308/2013).
 - (2) OJ Rhif L 163, 24.6.2008, t. 6, fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2017/2168 (OJ Rhif L 306, 22.11.2017, t. 6). Mae cyfeiriadau yn Rheoliad y Comisiwn 589/2008 at Reoliad y Cyngor 1234/2007 sydd wedi ei ddiddymu i’w dehongli fel cyfeiriadau at Reoliad 1308/2013 (gweler Erthygl 230(2) o Reoliad 1308/2013).
 - (3) OJ Rhif L 347, 20.12.2013, t. 671, fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) 2017/2393 Senedd Ewrop a’r Cyngor (OJ Rhif L 350, 29.12.2017, t. 15).

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd) (Cymru) 2007

12.—(1) Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd) (Cymru) 2007(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn lle'r diffiniad o “Rheoliadau 2006” rhodder—

“ystyr “Rheoliadau 2009” (*“the 2009 Regulations”*) yw Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009(2);”;

(ii) yn y diffiniad o “Rheoliad 882/2004”, hepgorer paragraff (c);

(b) ym mharagraff (3)—

(i) yn is-baragraff (a), yn lle “Rheoliadau 2006” rhodder “Rheoliadau 2009”;

(ii) yn is-baragraff (b), yn lle “Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2006” rhodder “Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2013(3)”.

(3) Yn rheoliad 9—

(a) ym mhob lle y mae'n digwydd, yn lle “Rheoliadau 2006” rhodder “Rheoliadau 2009” ac yn lle “Reoliadau 2006” rhodder “Reoliadau 2009”;

(b) ym mharagraff (3)—

(i) yn lle “41 i 43” rhodder “45 i 47”;

(ii) yn lle “45 a 46” rhodder “49 a 50”.

(4) Hpgorer rheoliad 20.

Rheoliadau Ychwanegu Fitaminau, Mwynau a Sylweddau Eraill (Cymru) 2007

13.—(1) Mae Rheoliadau Ychwanegu Fitaminau, Mwynau a Sylweddau Eraill (Cymru) 2007(4) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1), yn lle'r diffiniad o “y Rheoliad CE” rhodder—

“ystyr “y Rheoliad CE” (*“the EC Regulation”*) yw Rheoliad (EC) Rhif 1925/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegu fitaminau a mwynau a

(1) O.S. 2007/196 (Cy. 15), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
 (2) O.S. 2009/3376 (Cy. 298).
 (3) O.S. 2013/2033.
 (4) O.S. 2007/1984 (Cy. 165), a ddiwygiwyd gan O.S. 2010/2069 (Cy. 191); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

sylweddau penodol eraill at fwydydd, fel y diwygir Atodiad I neu II iddo o bryd i'w gilydd(1).”

(3) Yn rheoliad 4(1), yn lle “Yn ddarostyngedig i'r mesurau trosiannol a gynhwysir yn Erthygl 18 (sy'n ymwneud â bwydydd a roddwyd ar y farchnad cyn 1 Gorffennaf 2007), mae” rhodder “Mae”.

Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2007

14.—(1) Mae Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2007(2) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn y diffiniad sy'n dechrau gyda “mae i “Cyfarwyddeb 2004/41”” —

(aa) yn lle “, “Rheoliad 2075/2005” (“*Regulation 2075/2005*”)” rhodder “a Rheoliad 2015/1375” (“*Regulation 2015/1375*”)”;

(bb) hepgorer “a “Rheoliad 2076/2005” (“*Regulation 2076/2005*”)”;

(ii) yn y diffiniad o “mewnforyn trydedd wlad”, yn lle “y mae tâl yn daladwy mewn cysylltiad ag ef o dan reoliad 54 o Reoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2007” rhodder “y mae Rhan 3 o Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011(3) yn gymwys mewn cysylltiad ag ef”;

(b) ym mharagraff (2)(a), hepgorer “neu 7”.

(3) Yn yr Atodlen—

(a) yn y diffiniad o “Rheoliad 853/2004”, yn lle “, Rheoliad 2074/2005 a Rheoliad 2076/2005” rhodder “a Rheoliad 2074/2005”;

(b) yn lle'r diffiniad o “Rheoliad 854/2004” rhodder—

“ystyr “Rheoliad 854/2004” (“*Regulation 854/2004*”) yw Rheoliad (EC) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau penodol ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid ac a fwriedir i'w bwyta

(1) OJ Rhif L 404, 30.12.2006, t. 26, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2017/1203 (OJ Rhif L 173, 6.7.2017, t. 9).

(2) O.S. 2007/3462 (Cy. 307), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(3) O.S. 2011/2379 (Cy. 252).

gan bobl(1) fel y'i darllenir gyda Chyfarwyddeb 2004/41, Rheoliad 2074/2005 a Rheoliad 2015/1375;”;

(c) yn y diffiniad o “Rheoliad 882/2004”, hepgorer “a Rheoliad 2076/2005”;

(d) yn lle'r diffiniad o “Rheoliad 2074/2005” rhodder—

“ystyr “Rheoliad 2074/2005” (“*Regulation 2074/2005*”) yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2074/2005 sy'n gosod mesurau gweithredu ar gyfer cynhyrchion penodol o dan Reoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ac ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol o dan Reoliad (EC) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor a Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n rhanddiddymu Rheoliad (EC) Rhif 852/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ac yn diwygio Rheoliadau (EC) Rhif 853/2004 ac (EC) Rhif 854/2004(2).”;

(e) yn lle'r diffiniad o “Rheoliad 2075/2005” rhodder—

“ystyr “Rheoliad 2015/1375” (“*Regulation 2015/1375*”) yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2015/1375 sy'n gosod rheolau penodol ar reolaethau swyddogol ar gyfer *Trichinella* mewn cig(3).”;

(f) hepgorer y diffiniad o “Rheoliad 2076/2005”.

Rheoliadau Deunyddiau Bwyd sydd wedi'u Rhewi'n Gyflym (Cymru) 2007

15.—(1) Mae Rheoliadau Deunyddiau Bwyd sydd wedi'u Rhewi'n Gyflym (Cymru) 2007(4) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn lle'r diffiniad o “Cyfarwyddeb 89/108” rhodder—

(1) OJ Rhif L 139, 30.4.2004, t. 206, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2015/2285 (OJ Rhif L 323, 9.12.2015, t. 2).

(2) OJ Rhif 338, 22.12.2005, t. 27, fel y'i cywirwyd gan y Corigendwm a nodir yn OJ Rhif L 214, 9.8.2013, t. 11 ac fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2017/1973 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 2074/2005 o ran rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion pysgodfeydd a ddaliwyd gan gychod sy'n cyhwfan baner Aelod Wladwriaeth ac a gyflwynir i'r Undeb wedi iddynt gael eu trosglwyddo mewn trydydd gwledydd ac yn sefydlu tystysgrif iechyd enghreifftiol ar gyfer y cynhyrchion hynny (OJ Rhif L 281, 31.10.2017, t. 21).

(3) OJ Rhif L 212, 11.8.2015, t. 7.

(4) O.S. 2007/389 (Cy. 40), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

“ystyr “Cyfarwyddeb 89/108” (*“Directive 89/108”*) yw Cyfarwyddeb y Cyngor 89/108/EEC ar gyd-ddynesu cyfreithiau Aelod-wladwriaethau sy’n ymwneud â deunyddiau bwyd sydd wedi’u rhewi’n gyflym ac sydd i’w bwyta gan bobl(1);”;

(ii) yn lle’r diffiniad o “awdurdod bwyd” rhodder—

“mae i “awdurdod bwyd” yr ystyr a roddir i “*food authority*” yn rhinwedd adran 5(1A) o’r Ddeddf;”;

(b) ym mharagraff (3)—

(i) yn is-baragraff (a), hepgorer “neu 7”;

(ii) ar ddiwedd is-baragraff (a), mewnosoder “neu”;

(iii) ar ddiwedd is-baragraff (b), hepgorer “neu”;

(iv) hepgorer is-baragraff (c).

(3) Yn rheoliad 9, hepgorer paragraff (3).

(4) Hepgorer Atodlen 3.

Rheoliadau Cynhyrchion Penodedig o Tsieina (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) 2008

16. Yn Rheoliadau Cynhyrchion Penodedig o Tsieina (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) 2008(2), hepgorer rheoliad 8.

Rheoliadau Cynhyrchion sy’n Dod o Anifeiliaid (Rheoli Clefydau) (Cymru) 2008

17.—(1) Mae Rheoliadau Cynhyrchion sy’n Dod o Anifeiliaid (Rheoli Clefydau) (Cymru) 2008(3) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 3—

(a) ym mharagraff 1(a), hepgorer y geiriau o “neu erthygl 4” hyd at “ddarllenadwy”;

(b) ym mharagraff 3, hepgorer is-baragraff (a) (ynghyd â’r “neu” ar y diwedd).

(1) OJ Rhif L 40, 11.2.1989, t. 34, fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2013/20/EU (OJ Rhif L 158, 10.6.2013, t. 234).

(2) O.S. 2008/1080 (Cy. 114), a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/1653 (Cy. 154); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(3) O.S. 2008/1275 (Cy. 132), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009

18.—(1) Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad sy'n dechrau gyda “mae i “Cyfarwyddeb 2004/41””, yn lle “, “Rheoliad 211/2013” (“*Regulation 211/2013*”) a “Rheoliad 702/2013” (“*Regulation 702/2013*”)” rhodder “a “Rheoliad 211/2013” (“*Regulation 211/2013*”)”.

(3) Yn rheoliad 22, yn y diffiniad o “cynnyrch”, yn lle “Penderfyniad y Comisiwn 2007/275/EC ynghylch rhestrau o anifeiliaid a chynhyrchion sydd i'w harchwilio wrth safleoedd arolygu ar y ffin o dan Gyfarwyddebau'r Cyngor 91/496/EEC a 97/78/EC” rhodder “Penderfyniad y Comisiwn 2007/275/EC ynghylch rhestrau o anifeiliaid a chynhyrchion sydd i'w harchwilio wrth safleoedd arolygu ar y ffin o dan Gyfarwyddebau'r Cyngor 91/496/EEC a 97/78/EC(2)”.

(4) Yn Atodlen 1—

(a) yn y diffiniad o “Rheoliad 882/2004”, yn lle “, Rheoliad 669/2009 a Rheoliad 702/2013 (“*Regulation 702/2013*”)” rhodder “a Rheoliad 669/2009”;

(b) hepgorer y diffiniad o “Rheoliad 702/2013”.

(5) Yn Atodlen 3, yn y diffiniad o “cyfraith bwyd berthnasol”, ym mharagraff (a)—

(a) yn is-baragraff (iii), yn lle “Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 509/2006 ar gynhyrchion amaethyddol a bwydydd fel arbenigeddau traddodiadol a warentir” rhodder “Rheoliad (EU) Rhif 1151/2012 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gynlluniau ansawdd ar gyfer cynhyrchion amaethyddol a bwydydd(3)”;

(b) yn is-baragraff (iv), yn lle “Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 510/2006 ar warchod dynodiadau daearyddol a dynodiadau tarddiad cynhyrchion amaethyddol a bwydydd” rhodder “Rheoliad (EU) Rhif 1151/2012 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gynlluniau ansawdd ar gyfer cynhyrchion amaethyddol a bwydydd”;

(1) O.S. 2009/3376 (Cy. 298), a ddiwygiwyd gan O.S. 2014/2714 (Cy. 271); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(2) OJ Rhif L 116, 4.5.2007, t. 9, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2016/1196 (OJ Rhif L 197, 22.7.2016, t. 10).

(3) OJ Rhif L 343, 14.12.2012, t. 1, fel y'i cywirwyd gan y Corigendwm a nodir yn OJ Rhif L 55, 27.2.2013, t. 27.

(c) yn lle is-baragraff (vi) rhodder—

“(vi) rheoleiddio labelu cig eidion a chig llo o dan Reoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2011(1),”;

(d) yn lle is-baragraff (vii) rhodder—

“(vii) rheoleiddio mewnforio a masnachu o ran cynhyrchion sy’n dod o anifeiliaid o dan Reoliadau’r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011(2), ac eithrio gweithredu a gorfodi rheoliad 32(3)(b) o’r Rheoliadau hynny gan yr Asiantaeth,”.

Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swydddogol) (Cymru) 2009

19.—(1) Mae Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swydddogol) (Cymru) 2009(3) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad sy’n dechrau gyda “mae i “Cyfarwyddeb 2004/41””, yn lle “, “Rheoliad 2075/2005” a “Rheoliad 2076/2005”” rhodder “a “Rheoliad 2015/1375”” ac yn lle “, “*Regulation 2075/2005*” a “*Regulation 2076/2005*”” rhodder “a “*Regulation 2015/1375*””.

(3) Yn Atodlen 1—

(a) yn y diffiniad o “Rheoliad 853/2004”, yn lle “, Rheoliad 2074/2005 a Rheoliad 2076/2005” rhodder “a Rheoliad 2074/2005”;

(b) yn y diffiniad o “Rheoliad 854/2004”, yn lle “, Rheoliad 2075/2005 a Rheoliad 2076/2005” rhodder “a Rheoliad 2015/1375”;

(c) yn y diffiniad o “Rheoliad 882/2004”, hepgorer “a Rheoliad 2076/2005”;

(d) yn lle’r diffiniad o “Rheoliad 2075/2005” rhodder—

“ystyr “Rheoliad 2015/1375” (“*Regulation 2015/1375*”) yw Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (EU) 2015/1375 sy’n gosod rheolau penodol ar reolaethau swydddogol ar gyfer *Trichinella* mewn cig(4).”;

(e) hepgorer y diffiniad o “Rheoliad 2076/2005”.

-
- (1) O.S. 2011/991 (Cy. 145), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.
- (2) O.S. 2011/2379 (Cy. 252), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.
- (3) O.S. 2009/1557 (Cy. 152), a ddiwygiwyd gan O.S. 2014/2714 (Cy. 271); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.
- (4) OJ Rhif L 212, 11.8.2015, t. 7.

Rheoliadau Arbelydru Bwyd (Cymru) 2009

cynhaliaeth pan fo myfyriwr yn cymhwyso i gael cymorth ond, ar adeg yn ystod y flwyddyn academaidd, yn absennol o'r cwrs neu fod ei gyfnod cymhwystra yn dod i ben neu'n cael ei derfynu.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2018 Rhif 813 (Cy. 164)

ADDYSG, CYMRU

**Rheoliadau Addysg (Cymorth i
Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2018**

Gwnaed 3 Gorffennaf 2018

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 6 Gorffennaf 2018

Yn dod i rym 1 Awst 2018

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 22 a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998⁽¹⁾ ac sy'n arferadwy bellach ganddynt hwy⁽²⁾, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

-
- (1) 1998 p. 30; diwygiwyd adran 22 gan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), adran 146 ac Atodlen 11; Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (p. 1), Atodlen 6; Deddf Cyllid 2003 (p. 14), adran 147; Deddf Addysg Uwch 2004 (p. 8), adrannau 42 a 43 ac Atodlen 7; Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p. 22), adran 257; Deddf Addysg 2011 (p. 21), adran 76; O.S. 2013/1881; a Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 (p. 29), adran 88. *Gweler* adran 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i gael y diffiniad o "prescribed" a "regulations".
- (2) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(2)(a) i (i) a (k) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 (p. 8), ac mae is-adrannau (a), (c) a (k) yn cael eu harfer ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 42, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

RHAN 1

ENWI A CHYCHWYN

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2018.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Awst 2018.

RHAN 2

DIWYGIO RHEOLIADAU ADDYSG (CYMORTH I FYFYRWYR) (CYMRU) 2018

Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Cymru) 2018

2. Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Cymru) 2018(1) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 10.

3. Yn rheoliad 46(3)(c), ar ôl “incwm aelwyd” mewnosoder “sy'n fwy na £18,370”.

4. Yn lle rheoliad 56 rhodder—

“Swm y benthyciad cynhaliaeth: myfyrrwyr llawnamser sy'n cymhwyso i gael taliad cymorth arbennig

56.—(1) Pan fo myfyriwr llawnamser yn cymhwyso i gael taliad cymorth arbennig o dan reoliad 50, cyfrifir swm y benthyciad cynhaliaeth sy'n daladwy i'r myfyriwr yn unol â pharagraff (2).

(2) Cyfrifir swm y benthyciad cynhaliaeth sy'n daladwy drwy gymhwyso'r camau a ganlyn—

Cam 1

Nodi swm—

- (a) y grant cynhaliaeth sy'n daladwy i'r myfyriwr o dan reoliad 46, a
- (b) y grant sylfaenol sy'n daladwy i'r myfyriwr o dan reoliad 45.

Cam 2

(1) O.S. 2018/191 (Cy. 42), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/802 (Cy. 161).

Nodi swm y grant sylfaenol a'r grant cynhaliath sydd i'w drin fel taliad cymorth arbennig o dan reoliad 50.

Cam 3

Nodi swm cymwys y cymorth byw i'r myfyriwr drwy gyfeirio at Dabl 8, pan fo—

- (a) Colofn 1 yn pennu'r flwyddyn academiaidd y mae symiau'r cymorth byw yng Ngholofn 3 yn gymwys mewn perthynas â hi;
- (b) Colofn 2 yn pennu'r lleoliad y mae'r myfyriwr yn byw ynddo (gweler paragraff 3 o Atodlen 1);
- (c) Colofn 3 yn pennu symiau cymwys y cymorth byw ar gyfer y cofnodion cyfatebol yng Ngholofnau 1 a 2.

Tabl 8

<i>Colofn 1</i> Blwyddyn academiaidd	<i>Colofn 2</i> Lleoliad y myfyriwr	<i>Colofn 3</i> Swm cymwys y cymorth byw i'r myfyriwr cymorth arbennig
Sy'n dechrau ar neu ar ôl 2018	Byw gartref	£7,650
	Byw oddi cartref, astudio yn Llundain	£11,250
	Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall	£9,000

Cam 4

Pa un bynnag yw'r mwyaf o—

- (a) y swm a nodir yng Ngham 3, neu
- (b) symiau'r grant a nodir yng Ngham 1 plws isafswm y benthyciad cynhaliath sy'n daladwy i'r myfyriwr fel y'i pennir drwy gyfeirio at Dabl 8A,

yw uchafswm y cymorth byw sydd ar gael i'r myfyriwr.

Cam 5

Cyfrifo uchafswm tybiannol y benthyciad cynhaliath drwy ddidynnu swm y taliad cymorth arbennig a nodir yng Ngham 2 o uchafswm y cymorth byw a nodir yng Ngham 4.

Cam 6

Didynnu swm unrhyw grant cynhaliaeth sy'n daladwy i'r myfyriwr nad yw'n cael ei drin fel taliad cymorth arbennig o uchafswm tybiannol y benthyciad cynhaliaeth a gyfrifir yng Ngham 5.

Y canlyniad yw swm y benthyciad cynhaliaeth sy'n daladwy i'r myfyriwr.

(3) Yn Nhabl 8A—

- (a) mae Colofn 1 yn pennu'r flwyddyn academaidd y mae isafswm y benthyciad cynhaliaeth yng Ngholofn 3 yn gymwys mewn perthynas â hi;
- (b) mae Colofn 2 yn pennu'r lleoliad y mae'r myfyriwr yn byw ynddo (gweler paragraff 3 o Atodlen 1);
- (c) mae Colofn 3 yn pennu isafswm y benthyciad cynhaliaeth sy'n daladwy ar gyfer y cofnodion cyfatebol yng Ngholofnau 1 a 2.

Tabl 8A

<i>Colofn 1 Blwyddyn academaidd</i>	<i>Colofn 2 Lleoliad y myfyriwr</i>	<i>Colofn 3 Isafswm y benthyciad cynhaliaeth sy'n daladwy</i>
Sy'n dechrau ar neu ar ôl 2018	Byw gartref	£3,325
	Byw oddi cartref, astudio yn Llundain	£5,125
	Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall	£4,000

(4) Yn y rheoliad hwn, "cymorth byw" yw'r term ar gyfer y taliad cymorth arbennig, y grant cynhaliaeth a'r benthyciad cynhaliaeth ar y cyd."

5. Yn rheoliad 58 (swm y benthyciad cynhaliaeth: myfyrwyr rhan-amser), ar y diwedd mewnosoder—

"(3) Mae'r rheoliad hwn yn ddarostyngedig i reoliad 58A."

6. Ar ôl rheoliad 58 mewnosoder—

"Swm y benthyciad cynhaliaeth: myfyrwyr rhan-amser sy'n cymhwyso i gael taliad cymorth arbennig

58A.—(1) Pan fo myfyriwr rhan-amser yn cymhwyso i gael taliad cymorth arbennig o dan reoliad 50, cyfrifir swm y benthyciad

cynhaliaeth sy'n daladwy i'r myfyriwr yn unol â pharagraff (2).

(2) Cyfrifir swm y benthyciad cynhaliaeth drwy gymhwyso'r camau a ganlyn—

Cam 1

Nodi swm y grant sylfaenol a'r grant cynhaliaeth sy'n daladwy i'r myfyriwr sydd i'w drin fel taliad cymorth arbennig o dan reoliad 50.

Cam 2

Cyfrifo swm cymwys y cymorth byw i'r myfyriwr drwy gyfeirio at Dabl 10A, pan fo Colofn 2 o'r tabl yn pennu swm y cymorth byw sy'n gymwys mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd a bennir yng Ngholofn 1.

Tabl 10A

<i>Colofn 1</i> Blwyddyn academaidd	<i>Colofn 2</i> Swm y cymorth byw i'r myfyriwr rhan-amser pan fo cymorth arbennig yn daladwy
Sy'n dechrau ar neu ar ôl 2018	£6,650 wedi ei luosi â'r dwysedd astudio

Cam 3

Didynnu swm y taliad cymorth arbennig a nodir yng Ngham 1 o swm cymwys y cymorth byw a nodir yng Ngham 2.

Y canlyniad yw swm y benthyciad cynhaliaeth sy'n daladwy i'r myfyriwr.

(3) Yn y rheoliad hwn, "cymorth byw" yw'r term ar gyfer y taliad cymorth arbennig, y grant cynhaliaeth a'r benthyciad cynhaliaeth ar y cyd.

7. Yn rheoliad 81(2) (cymhwyso i gael benthyciad cynhaliaeth neu grantiau yn ystod y flwyddyn academaidd), yn lle is-baragraff (a) rhodder—

“(a) yn achos grant, mewn cysylltiad â gweddill diwrnodau y flwyddyn academaidd, ac, yn achos benthyciad cynhaliaeth, mewn cysylltiad â gweddill diwrnodau tymor y flwyddyn academaidd, sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r digwyddiad perthnasol yn digwydd yn y naill achos neu'r llall, a”

8. Yn rheoliad 93 (cymorth wedi ei ostwng am gyfnodau a dreulir yn y carchar), yn lle paragraff (2) rhodder—

“(2) Pan fo’r rheoliad hwn yn gymwys, mae swm y benthyciad cynhaliaeth neu’r grant sy’n daladwy wedi ei ostwng yn ôl nifer y diwrnodau yn ystod y flwyddyn academaidd y mae’r myfyriwr cymwys yn garcharor.”

9. Yn rheoliad 94 (cymorth wedi ei ostwng am gyfnodau eraill o absenoldeb), yn lle paragraff (2) rhodder—

“(2) Pan fo’r rheoliad hwn yn gymwys, mae swm y benthyciad cynhaliaeth neu’r grant wedi ei ostwng yn ôl nifer y diwrnodau yn ystod y flwyddyn academaidd y mae’r myfyriwr cymwys yn absennol o’i gwrs.”

10. Yn rheoliad 95 (taliadau pan fo’r cyfnod cymhwysra yn dod i ben neu’n cael ei derfynu), yn lle paragraff (1) rhodder—

“(1) Pan fo cyfnod cymhwysra myfyriwr cymwys wedi dod i ben neu wedi cael ei derfynu, mae unrhyw swm o’r benthyciad cynhaliaeth neu’r grant sy’n daladwy mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd wedi ei ostwng yn ôl nifer y diwrnodau yn y flwyddyn academaidd pan fo cymhwysra wedi dod i ben neu wedi cael ei derfynu.”

Kirsty Williams
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o
Weinidogion Cymru

3 Gorffennaf 2018

EXPLANATORY MEMORANDUM TO THE EDUCATION (STUDENT SUPPORT) (AMENDMENT) (WALES) REGULATIONS 2018

The Explanatory Memorandum has been prepared by the Higher Education Division and is laid before the National Assembly for Wales under Standing Order 27.1.

Cabinet Secretary's declaration

In my view this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the Education (Student Support) (Wales) (Amendment) Regulations 2018. I am satisfied that the benefits justify the likely costs.

Kirsty Williams AM
Cabinet Secretary for Education

6 July 2018

Description

The Education (Student Support) (Wales) (Amendment) Regulations 2018 ('the Regulations') make amendments to the Education (Student Support) (Wales) Regulations 2018 ('the 2018 Regulations').

Matters of special interest to the Constitutional and Legislative Affairs Committee

None.

Legislative background

Section 22 of the Teaching and Higher Education Act 1998 ('the 1998 Act') provides the Welsh Ministers with the power to make regulations authorising or requiring the payment of financial support to students studying courses of higher or further education designated by or under those regulations. In particular, this power enables the Welsh Ministers to prescribe amount of financial support (grant or loan) and categories of attendance on higher education courses. This provision, together with sections 42(6) and 43(1) of the 1998 Act, provides the Welsh Ministers with the power to make the Regulations.

Section 44 of the Higher Education Act 2004 ('the 2004 Act') provided for the transfer to the National Assembly for Wales of the functions of the Secretary of State under section 22 of the 1998 Act (except insofar as they relate to the making of any provision authorised by subsections (2)(a), (c), (j) or (k), (3)(e) or (f) or (5) of section 22). Section 44 of the 2004 Act also provided for the functions of the Secretary of State in section 22(2)(a), (c) and (k) to be exercisable concurrently with the National Assembly for Wales.

The functions of the Secretary of State under sections 42(6) and 43(1) of the 1998 Act were transferred, so far as exercisable in relation to Wales, to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

The functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32).

Each year, a number of functions of the Welsh Ministers in regulations made under section 22 of the 1998 Act are delegated to the Student Loans Company under section 23 of the 1998 Act.

This instrument will follow the Negative Resolution procedure.

Purpose and intended effect of the legislation

The Welsh Ministers make regulations annually to provide the basis for the system of financial support for students who are ordinarily resident in Wales and taking designated courses of higher education.

The 2018 Regulations provide for financial support for students taking designated higher education courses which begin on or after 1 August 2018. The 2018 Regulations also provide support for courses which begin before 1 August 2018 and are subsequently converted from full-time to part-time or part-time to full-time on or after 1 August 2018.

The 2018 Regulations introduced a number of changes to student support for students commencing their studies in the 2018/19 academic year. These changes were made as a result of the *Independent review of higher education funding and student finance arrangements* ('the Diamond review'). In addition, the 2018 Regulations represent a comprehensive redraft and simplification of the previous student support regulations.

An amendment is required to reframe the calculation of special support payments to resolve an unintended consequence of the interaction between the 2018 Regulations and the Universal Credit Regulations 2013 related to the financial assessment of a student for the purposes of Universal Credit. The calculation is presented as a series of steps and a worked example is below.

Assume a student living at home, studying full-time, with household income of £35,000. The Steps of regulation 4 provide for the following:

Step 1. Maintenance grant payable under regulation 46 is £3,488. Base grant payable under regulation 45 is £1,000.

Step 2. The amount of base grant and maintenance grant to be treated as a special support payment under regulation 50 is £4,488.

Step 3. The applicable amount of living support is £7,650.

Step 4. Amount (a) is £7,650. Amount (b) is £4,488 + £3,325 = £7,813. The greater amount is £7,813 and is the maximum amount of living support.

Step 5. The notional maximum amount of maintenance loan is £7,813 - £4,488 = £3,325.

Step 6. The maintenance loan payable to the student is £3,325 - £0 = £3,325.

So, the student will receive a special support payment of £4,488 and a maintenance loan of £3,325, which is a total amount of support of £7,813.

Amendments have also been made relating to the calculation of maintenance grants and loans when a student's eligibility changes within an academic year if the student becomes an eligible student, when a student becomes a prisoner, is otherwise absent from the course, or ceases to be an eligible student.

IMPLEMENTATION

The Regulations enable the Welsh Government's delivery partner (the Student Loans Company) to implement necessary changes to the operation of the system of student support for 2018.

CONSULTATION

There is no statutory requirement to consult on the Regulations. The 2018 Regulations were developed as a response to the Diamond review. This included a wide-ranging and sustained programme of engagement with stakeholders over more than two years which substantially shaped the policy for student support and its implementation, both of which underpin the 2018 Regulations.

A consultation on a number of the recommendations made in the Diamond review was undertaken during 2016 and into 2017 (Student support funding for students ordinarily resident in Wales, WG30133)¹.

Further engagement was undertaken late in 2017, in the form of a Student Finance Wales Information Notice (SFWIN)².

¹ <https://beta.gov.wales/support-funding-students-resident-wales>

² <https://www.studentfinancewales.co.uk/media/196984/sfwin-04-2017-changes-to-student-support-in-ay201819.pdf>

REGULATORY IMPACT ASSESSMENT

The policy underpinning the 2018 Regulations was developed as a direct response to the Diamond review, which addressed the areas of widening access, supporting the skill needs of Wales, strengthening part-time and postgraduate provision, and ensuring long-term financial sustainability. The Diamond review considered a range of options for student support, settling on a set of changes recommended to the Cabinet Secretary for Education, recommendations that were largely accepted.

The 2018 Regulations made provision for those changes. The Regulatory Impact Assessment³ which accompanied the laying of the 2018 Regulations with the National Assembly for Wales is a comprehensive overview of the impact of those regulations. The Regulatory Impact Assessment ('RIA') which accompanied the 2018 Regulations provides the appropriate impact analysis for these Regulations, which make amendments that fall within the scope of the RIA, and which is supplemented here with additional detail.

Options

Two options were considered.

Option 1 – do nothing

In the event of the Regulations not being made the principal implication is that the policy changes recommended as part of the Diamond review would not be fully implemented and that the Student Loans Company would not properly be able to operate the student support system in Wales for the academic year beginning in August 2018.

Option 2 – make the regulations

Making the Regulations ensures that the Diamond review recommendations are fully implemented. In turn, this contributes to ensuring that the changes to widening access, supporting the skill needs of Wales, strengthening part-time and postgraduate provision, and financial sustainability have proper effect.

Costs and benefits

³ <http://senedd.assembly.wales/documents/s72450/SL5189%20-%20EM%20The%20Education%20Student%20Support%20Wales%20Regulations%202018.pdf>

Option 1 – do nothing

There would be neither additional cost nor benefit; however certain aspects of the 2018 Regulations would not operate as intended.

Option 2 – make the regulations

By making the Regulations the Welsh Ministers ensure that the Welsh student support system has an appropriate underpinning legal framework and that policy operates as intended. The Regulations reflect policy developed as a result of the Diamond review. The Regulatory Impact Assessment which accompanied the 2018 Regulations describes the costs and benefits which accrue. Additional cost analysis is detailed table 1 and summarised in the following paragraphs.

The amendments to regulations 56 of the 2018 Regulations and the inclusion of a new regulation 58A mean that the amount of student support that the Department of Work and Pensions will assess as the unearned income of a student who is entitled to Universal Credit will accord with the Welsh Ministers' policy intent. There is no cost to Welsh Government associated with this change as the amendments only change the way the calculation method is presented, not the amounts of support payable to students.

Students affected by regulations 81 and 93–95, those whose eligibility for student support is affected in an academic year, will be assessed for support in a fair and equitable manner based upon the number of days they attend a course.

Regulation 7 amends regulation 81(2) of the 2018 Regulations. Regulation 81 provides for students who become eligible to receive student support based upon the time remaining in the academic year.

Regulations 93–95 of the 2018 Regulations are amended by regulations 8, 9 and 10. Regulation 93 provides for a recalculation of support when a student becomes a prisoner, regulation 94 for recalculation when a student is absent from a course, and regulation 95 provides for a recalculation when a student's period of eligibility ends or is terminated.

All else equal, regulation 7 will increase the cost of providing student support, regulations 8 and 9 will have minor cost implications, and regulation 10 may decrease the cost of providing support. The change in the total cost of providing student support that these changes represent are not material and

are expected to fall within the margin of inherent uncertainty associated with forecasting the costs of providing student support.

Table 1 – Cost analysis

Amendment	Impact
The amendments to regulation 56 of the 2018 Regulations and the inclusion of a new regulation 58A mean that the amount of student support that the Department of Work and Pensions will assess as the unearned income of a student who is entitled to Universal Credit will accord with the Welsh Ministers' policy intent.	There is no cost to Welsh Government associated with this change as the amendments only change the way the calculation method is presented, not the amounts of support payable to students.
Students who become eligible to receive student support will be assessed based upon the number of days remaining in the academic year (regulation 7).	It is not possible to predict how many students will become eligible for support during the year, or at what point in the year they might become eligible. As students would currently be assessed based on the number of quarters rather than days remaining, this amendment could in theory result in immaterial additional costs, depending on the number and timing of students becoming eligible.
Recalculation of support when a student becomes a prisoner will be assessed based upon the number of days remaining in the academic year (regulation 8).	It is not possible to predict how many students will become prisoners during the year, or at what point in the year. Numbers will be very small (if any). There is no cost associated with this amendment as the regulation has been made more permissive, but it does not alter the calculation that will be applied to determine entitlement.
Recalculation of support when a student is absent from a course will be assessed based upon the number of days	It is not possible to predict how many students will be absent from a course, or at what point in the year. There is no cost

remaining in the academic year (regulation 9).	associated with this amendment as the regulation has been made more permissive, but it does not alter the calculation that will be applied to determine entitlement.
Recalculation when a student's period of eligibility ends or is terminated will be assessed based upon the number of days remaining in the academic year (regulation 10).	It is not possible to predict how many students' eligibility will end, or at what point in the year. As students would currently be assessed based on the number of payment periods rather than days remaining, this amendment could in theory result in a negligible reduction in costs, depending on the number and timing of students becoming ineligible.

COMPETITION ASSESSMENT

The making of the Regulations has no impact on the competitiveness of businesses, charities or the voluntary sector.

POST-IMPLEMENTATION ASSESSMENT

The regulations governing the student support system are usually revised annually and are continually subject to detailed review, both by policy officials and delivery partners in their practical implementation of the regulations. An evaluation plan for the Welsh Government response to the Diamond review has been developed. This will monitor, among other things, numbers, participation and retention of higher education students.

SUMMARY

The making of these Regulations is necessary to prevent unintended consequences arising from certain the provisions of the 2018 Regulations, and accordingly to confirm the intended basis for the higher education student support system for students ordinarily resident in Wales and EU students studying in Wales in the 2018/19 academic year.

SL(5)252 - Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2018

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn dirymu ac yn ail-wneud gyda diwygiadau Reoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2008 (O.S. 2008/3154 (Cy. 282)).

Mae'r Rheoliadau hyn yn parhau i orfodi Rheoliad (EC) Rhif 999/2001 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau ar gyfer atal, rheoli a dileu enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy penodol (OJ Rhif L 147, 31.5.2001, t. 1) ("Rheoliad TSE yr UE").

Y weithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu ac yn gorfodi rhwymedigaethau'r UE mewn perthynas ag iechyd anifeiliaid, ac felly bydd y Rheoliadau hyn yn ffurfio rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir ar ôl y diwrnod ymadael.

Mae'r Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin yn nodi bod "iechyd anifeiliaid" yn faes polisi sy'n debygol o fod yn ddarostyngedig i reoliadau cymal 11 o dan Fil yr UE (Ymadael) (rheoliadau adran 12 o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 bellach). Felly, mae'r gyfraith sy'n dod o dan y Rheoliadau hyn yn debygol o fod yn faes o gyfraith yr UE sy'n cael ei rewi tra bod fframweithiau cyffredin yn cael eu rhoi ar waith.

Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb y llywodraeth.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

19 Medi 2018





Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA - L/HID/0441/18

Mick Antoni
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Caerdydd
CF99 1NA

18 Medi 2018

Annwyl Mick,

Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)

Diolch i'r pwyllgor am ystyried Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn ystod Cyfnod 1 ac am yr adroddiad a gyhoeddwyd ar 28 Mehefin 2018.

Rwyf wedi nodi pryderon y pwyllgor ynglŷn â'r ffordd y cafodd y Bil ei lunio a barn y pwyllgor nad yw'r llywodraeth wedi llwyddo i daro'r cydbwysedd cywir rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd wedi'i gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth.

Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion adolygu'r cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy reoliadau. O ganlyniad, byddaf yn cyflwyno gwelliannau'r llywodraeth, a fydd yn helpu i ymateb i argymhellion y pwyllgor ac yn helpu i egluro pwrpas arfaethedig y Bil.

Drwy gynnwys mwy o wybodaeth am bwy sy'n "blentyn cymwys" ar wyneb y Bil, rwy'n gobeithio y lleddfir pryderon y pwyllgor ynghylch y potensial i'r Bil, fel y'i drafftwyd, gael ei ddefnyddio "i ddilyn polisi cwbl wahanol i'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol, er enghraifft, gofal ar ôl yr ysgol i blant 8 i 13 oed."

Rwyf wedi cydbwyso barn y pwyllgor yn hyn o beth ag argymhelliad 10 gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg sy'n cyflwyno'r achos dros gynnal hyblygrwydd ar gyfer y dyfodol o ran oedran plant cymwys.

Wrth ymateb i argymhellion y tri phwyllgor sydd wedi craffu ar y Bil, rwyf wedi ceisio sicrhau cydbwysedd gofalus, ond mae'n anochel y bu adegau pan oedd rhaid i mi ddewis un ochr yn hytrach na'r llall.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf yn nodi pryderon y pwyllgor hefyd nad yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn craffu ar y cynllun gweinyddu. Yn fy ymateb i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, rwyf wedi cynnig rhannu fframwaith cychwynol ar gyfer cynllun gweinyddu gyda'r pwyllgor cyn Cyfnod 3. Rwyf wedi dweud hefyd y byddwn yn croesawu'r cyfle i ddychwelyd i'r pwyllgor yn y gwanwyn gyda chynllun drafft.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i'ch gwneud yn ymwybodol o newid yn y trefniadau cyflawni ar gyfer ail flwyddyn gweithredu'r cynnig gofal plant yn gynnar a fydd yn cael effaith ar yr opsiynau yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil.

Yn y flwyddyn gyntaf, ymgwymerodd pob awdurdod lleol â'r broses lawn eu hunain, gan gynnwys asesu ceisiadau a phrosesu taliadau i ddarparwyr gofal plant. Ar gyfer y cyfnod gweithredu'n gynnar sy'n weddill hyd nes y caiff ei gyflwyno'n genedlaethol yn 2020, byddwn yn gofyn i awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth, gydag un awdurdod yn derbyn a phrosesu ceisiadau ar ran eraill ac yn gwneud y taliadau perthnasol. Bwriad hyn yw lleihau'r costau sydd eisoes wedi eu gwario ac na ellir eu hadennill yng nghyswllt dull gweithredu na fyddwn yn bwrw ymlaen ag ef am byth a sicrhau'r effeithlonrwydd mwyaf posibl i drethdalwyr.

Bydd y dull hwn yn cael ei ychwanegu at Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil fel pumed opsiwn yn ystod Cyfnod 2. Bydd y data'n cael ei rannu cyn gynted ag y bydd ar gael, er na ddisgwylir iddo wneud gwahaniaeth sylweddol i gydbwysedd y costau rhwng ein hopsiwn dewisol o ddefnyddio CThEM a'r opsiynau eraill.

Mae Atodiad A yn rhoi ymateb manylach i'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ystod proses graffu Cyfnod 1.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at gadeiryddion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Cyllid er gwybodaeth.

Yn gywir



Huw Irranca-Davies AC/AM

Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children, Older People and Social Care

Atodiad A

Argymhelliad 1

Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad Cenedlaethol ar gynnydd y trafodaethau cydsynio â Llywodraeth y DU yn ystod dadl Cyfnod 1.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn.

Rwyf yn falch o ddweud bod pob cydsyniad angenrheidiol ar gyfer y darpariaethau rhannu gwybodaeth yn adrannau 4 a 5 y Bil wedi'i sicrhau. Roedd cydsyniad Prif Ysgrifennydd y Trysorlys wedi'i sicrhau cyn cyflwyno'r Bil a sicrhawyd cydsyniad yr Ysgrifennydd Cartref a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau, drwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ar 28 Mehefin. Roedd fy llythyr ar 9 Gorffennaf at y Llywydd, yr anfonwyd copi ohono at gadeiryddion pwyllgorau, yn cadarnhau hyn. Byddaf yn darparu diweddariad, fel y gofynnwyd, yn ystod dadl Cyfnod1.

Argymhelliad 2

Nid ydym yn fodlon ar y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth. Dylai'r Gweinidog gynnal adolygiad sylfaenol o'r cydbwysedd cyn trafodion Cyfnod 2, â'r amcan o amserlenni gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau bod bwriad polisi'r Bil yn fwy eglur o lawer.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn.

Rwyf wedi gwrandao ar bryderon y pwyllgor hwn a rhai'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth ac wedi cynnal adolygiad.

Credaf fod yna achos cryf, gan fod hwn yn Fil technegol, dros roi'r rhan fwyaf o'r manylion gweithredol mewn rheoliadau ac mewn cynllun gweinyddu yn hytrach nag ar wyneb y Bil. Fodd bynnag, rwyf yn cydnabod ei bod yn bwysig bod y Bil yn glir ynghylch ei ddiben bwriedig, ond gan gadw rhywfaint o hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer unrhyw addasiadau bach a allai fod yn angenrheidiol yng ngoleuni tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o'r adroddiadau gwerthuso neu i ddarparu ar gyfer dyheadau polisi gweinyddiaethau yn y dyfodol. Gyda hyn mewn golwg, rwyf yn ystyried cyflwyno gwelliant i'r Bil, gyda'r bwriad o fynd i'r afael ag argymhelliad 5 hefyd.

Argymhelliad 3

Dylai'r Gweinidog ystyried cynnwys yn y Bil ddarpariaethau a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru adolygu a diddymu'r ddeddfwriaeth (pe byddai wedi'i deddfu a'i dechrau). Dylai darpariaethau o'r fath sicrhau:

- y cynhelir yr adolygiad ar ôl cyfnod priodol ac y caiff ei gasgliadau eu cynnwys mewn adroddiad a gaiff ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol, a'i drafod ganddo;
- os bydd yr adolygiad yn dangos nad yw'r ddeddfwriaeth yn gweithredu fel y bwriadwyd (er enghraifft), dylid ei diddymu. Dylai'r ddarpariaeth machlud ddilyn y dull sydd wedi'i gynnwys ym Mil lechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru).

Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad Cenedlaethol am ganlyniad ei ystyriaethau yn ystod dadl Cyfnod 1 ar y Bil.

Rwyf yn **parhau i archwilio'r opsiynau** sydd ar gael mewn perthynas â'r argymhelliad hwn. Nid wyf yn credu bod darpariaethau adolygu fel hyn yn briodol ar gyfer pob deddfwriaeth nac y byddai hyn yn addas yng nghyd-destun pŵer i ddarparu cyllid. Fodd bynnag, rwyf yn cydnabod y gall eu cynnwys fod yn fanteisiol mewn rhai achosion.

Rwyf yn ystyried y ffordd orau o fynd i'r afael â'r pwyntiau a wnaethoch mewn perthynas ag argymhelliad pedwar, ynghyd â'r rhai a wnaed gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Rwy'n gweld bod yr argymhelliad hwn yn gysylltiedig â sut mae'r materion hynny'n cael eu datblygu.

Byddaf yn ysgrifennu at y pwyllgor i'w ddiweddarau wrth i gynigion gael eu datblygu.

Argymhelliad 4

Dylai'r Bil, ar ei wyneb, ymrwymo Llywodraeth Cymru i ddarparu ei Chynnig Gofal Plant.

Mae cydberthynas gref rhwng yr argymhelliad hwn ac argymhelliad naw a wnaed gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, sy'n galw am i'r Bil ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu gofal plant a ariennir o fewn telerau'r cynnig.

Rwy'n **parhau i archwilio'r opsiynau** sydd ar gael i mi i ddiwallu'r argymhellion hyn, a'r egwyddorion sy'n eu cefnogi. Byddaf yn ysgrifennu at y pwyllgor i'w diweddarau wrth i gynigion gael eu datblygu.

Argymhelliad 5

Dylid diwygio'r Bil fel bod y meini prawf cymhwysedd craidd sy'n ymwneud â phwy sy'n "blentyn cymwys" neu'n "rhiant sy'n gweithio" yn ymddangos ar wyneb y Bil. Yn sgil hynny, dylai'r Bil gynnwys darpariaeth sy'n galluogi diwygio'r meini prawf hyn yn y dyfodol trwy reoliadau sy'n destun y weithdrefn gadarnhaol.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn.

Rwy'n bwriadu cyflwyno gwelliannau yn ystod Cyfnod 2 i roi mwy o eglurder mewn perthynas â phwy sy'n "blentyn cymwys".

Rwy'n ymwybodol o argymhelliad 10 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch yr angen i sicrhau rhywfaint o hyblygrwydd o ran oedran plant cymwys ac felly byddaf yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng argymhellion y ddau bwyllgor yn hyn o beth.

Argymhelliad 6

Pe na byddai'r Gweinidog yn derbyn Argymhelliad 5, dylai'r rheoliadau a wneir o dan adran 1 fod yn ddarostyngedig i weithdrefn uwch-gadarnhaol, yn hytrach na'r weithdrefn gadarnhaol, er mwyn darparu gwrthbwysed i ehangder y pŵer a geisir.

Nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae'r argymhelliad hwn yn gysylltiedig ag argymhelliad 5. Rwy'n bwriadu darparu mwy o eglurder mewn perthynas â phwy sy'n "blentyn cymwys", a bydd bwriad polisi'r Bil yn gliriach o ganlyniad i hynny. Felly nid wyf yn bwriadu gwneud rheoliadau o dan adran 1 y Bil yn ddarostyngedig i'r weithdrefn uwchgadarnhaol.

Argymhelliad 7

Nid ydym o'r farn y dylai'r gyfradd fesul awr sy'n daladwy ar gyfer y gofal plant na phwy sy'n cael darparu gofal o'r fath fod yn faterion y dylid eu penderfynu heb graffu gan y Cynulliad Cenedlaethol ac y dylid cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau y gwneir darpariaeth o'r fath yn y rheoliadau, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae'r gyfradd fesul awr y tu allan i gwmpas y Bil hwn.

Diben y Bil yw darparu'r sail ddeddfwriaethol sy'n angenrheidiol i ddatblygu proses ddigidol ar gyfer ymgeisio a gwirio cymhwysedd ar gyfer y cynnig gofal plant. Nid yw'n ymestyn i faterion yn ymwneud â'r gyfradd fesul awr, ac nid oeddem yn bwriadu i faterion o'r fath gael eu cynnwys yng nghylch gorchwyl yr is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r Bil. Yn lle hynny, byddent o fewn y cynllun gweinyddu. Rwy'n ystyried bod materion megis pwy sy'n gallu darparu'r gofal plant, pa gyfradd sy'n daladwy iddynt a sut a ble y gall rhieni gael mynediad i'r cynnig yn elfennau pwysig o sut y bydd y cynllun yn gweithredu yn ei gyfanrwydd, ac mae'n bwysig bod Aelodau'r Cynulliad yn cael cyfle i ystyried y materion hyn yn fwy manwl.

Byddwn yn croesawu cyfle i ddychwelyd i'r Pwyllgor Plant, y Pwyllgor Addysg a Phobl Ifanc yn y gwanwyn i drafod cynllun gweinyddu drafft cychwynnol, a fydd yn ymdrin â'r materion hyn yn fanylach.

Mae'r gyfradd fesul awr yn amodol ar brofion sy'n parhau fel rhan o weithredu'r cynnig gofal plant yn gynnar. Mae ardaloedd newydd yng Nghaerdydd, er enghraifft, yn cael eu hychwanegu at y cynnig i weld a yw'r gyfradd fesul awr yn ymarferol mewn ardaloedd lle mae cost gofal plant yn uwch nag mewn rhannau eraill o Gymru.

Drwy roi manylion y gyfradd fesul awr yn y cynllun gweinyddu, yn hytrach nag mewn rheoliadau, byddwn mewn sefyllfa well a mwy hyblyg i allu adolygu'r gyfradd fesul awr yn gyson.

Argymhelliad 8

Dylai'r Gweinidog gyfiawnhau yn ystod dadl Cyfnod 1 pam y mae wedi dewis cyhoeddi cynllun gweinyddu yn hytrach na rhoi canllawiau statudol i awdurdodau lleol.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn.

Wrth ddatblygu'r Bil hwn penderfynwyd mai'r dull gorau oedd cadw'r Bil technegol hwn yn fyr a chanolbwyntio ar roi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu'r cynllun, gyda phwerau gwneud rheoliadau lle mae deddfwriaeth yn angenrheidiol yn unig, er enghraifft mewn perthynas â chaniatáu i drydydd parti ddarparu gwybodaeth ac apeliadau i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf.

Rydym yn cynnig sefydlu cynllun gweinyddu o dan y pwerau yn adran 1 y Bil, gan nodi manylion gweithredol sut y bydd y cynnig yn gweithio – bydd hyn yn cynnwys manylion megis y rhaniad rhwng gofal plant ac addysg gynnar, sut mae'r cynnig yn gweithio yn ystod gwyliau ysgol, pa ddarparwyr all gyflwyno'r cynnig a sut y bydd darparwyr yn cael eu talu, er enghraifft.

Rhagwelir y bydd canllawiau'n ymwneud â'r cynllun (boed y rheini'n rhai statudol neu fel arall) yn cael eu rhoi i wahanol gynulleidfaoedd. Fodd bynnag, byddant yn ategu'r cynllun. Nid wyf o'r farn y gellir defnyddio'r canllawiau hynny yn lle cael cynllun gweinyddu: ni fyddai hyn yn rhoi'r sicrwydd a'r cysondeb rydym angen i rieni ledled Cymru elwa arno.

Bydd angen canllawiau hefyd, yn targedu gwahanol gynulleidfaoedd. Byddant yn esbonio i bob parti beth yw ei rôl benodol wrth gyflwyno'r cynllun gofal plant ac yn rhoi cyngor ar gymhwyso'r cynllun. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol wrth i ni ddatblygu'r canllawiau.

Argymhelliad 9

Dylai'r Gweinidog, yn ystod dadl Cyfnod 1, roi eglurhad pellach ynghylch pam y mae'n credu na fydd Llywodraeth y DU, i bob pwrpas, yn cael rhoi feto ar y trefniadau cyllido gofal plant arfaethedig os bydd Llywodraeth y DU yn gwrthod darparu'r cydsyniad angenrheidiol ar gyfer unrhyw reoliadau sy'n gwneud darpariaeth o dan adrannau 4 a 5.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn.

Bydd y Bil yn ein galluogi i sefydlu system ar gyfer ceisiadau a gwirio cymhwysedd ar gyfer y cynnig gofal plant. Mae'r dull a ffafir gennym yn defnyddio CThEM fel yr asiant darparu ac

yn gofyn am fynediad at setiau data penodol sydd yn nwylo CThEM, yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Swyddfa Gartref.

Mae swyddogion wedi bod yn gweithio gyda CThEM, Swyddfa Cymru ac adrannau eraill Llywodraeth y DU ers misoedd lawer ac rwyf wedi bod yn hyderus y byddai unrhyw gydsyniad angenrheidiol gan Lywodraeth y DU yn cael ei sicrhau.

Mae'r cydsyniadau cychwynnol hyn wedi'u cael ac mae fy swyddogion bellach yn ymgysylltu ag adrannau perthnasol y DU ar y cam nesaf erbyn hyn, a fydd yn golygu sicrhau cydsyniad Gweinidogion y Goron i is-ddeddfwriaeth lle mae effaith ar drydydd parti.

Nid wyf yn rhagweld y bydd cydsyniad yn rhwystr i ni gyflawni'r trefniadau arfaethedig.

Argymhelliad 10

Dylai'r Gweinidog ddarparu esboniad pellach yn ystod dadl Cyfnod 1 ynglŷn â'r defnydd yn adran 11 o'r geiriad "rhoi disgresiwn i unrhyw berson".

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn.

Mae'r geiriad "rhoi disgresiwn i unrhyw berson" yn eiriad safonol a ddefnyddir yn aml mewn deddfwriaeth a bwriedir iddo sicrhau bod digon o gwmpas a hyblygrwydd deddfwriaethol wedi'i gynnwys mewn unrhyw drefniadau gweinyddol i sicrhau y gellir ymdrin ag unrhyw amgylchiadau eithriadol mor effeithiol â phosib.

Argymhelliad 11

Dylai'r Nodiadau Esboniadol a fydd yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth egluro bwriad ac effaith y geiriad "rhoi disgresiwn i unrhyw berson" yn adran 11.

Rwyf yn **derbyn** yr argymhelliad hwn a bydd y Nodiadau Esboniadol yn cael eu diwygio i fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn ystod Cyfnod 2.

Argymhelliad 12

Dylid diwygio'r Bil fel bod unrhyw Orchymyn a wneir o dan adran 12(1) o'r Bil yn destun craffu a'r weithdrefn negyddol.

Nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.

Nid yw gwneud gorchmynion cychwyn yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn fel arfer, gan eu bod yn rhoi grym i'r hyn y mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi'i gymeradwyo. Mae safbwynt Llywodraeth Cymru ar y mater hwn wedi'i egluro eisoes. Felly, ni welaf unrhyw reswm i wyro oddi wrth y confensiwn presennol mewn perthynas â gorchmynion cychwyn.



Ein cyf MA(P)JJ-0445-(18)

Mick Antoniw AC

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

17 Medi 2018

Annwyl Mick

Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 – rheoliadau a wneir o dan Atodlen 4

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 11 Gorffennaf ynglŷn â hyn. Dywedwch nad ydych yn credu bod bwriad i'r broses sifftio y darperir ar ei chyfer gan baragraff 4 o Atodlen 7 i'r Ddeddf fod yn gymwys i reoliadau penderfyniadu negyddol a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Atodlen 4, ond yr hoffech gael barn Gweinidogion Cymru ar y mater.

Rydych yn awgrymu mai cymhwyso paragraff 1(10) o Atodlen 7 yw ffynhonnell y dryswch posibl. Ein barn ni yw mai darpariaeth 'gyfeirio' yn unig yw hon. Pe bai bwriad i gymhwyso darpariaethau paragraff 4 o Atodlen 7 i wneud rheoliadau Atodlen 4, byddai wedi bod yn angenrheidiol cyfeirio'n benodol at gymhwyso paragraff 4, ac wrth gwrs nid yw'r Ddeddf yn gwneud hynny. Mae'n werth nodi bod paragraff 18 o Atodlen 7 yn gwneud darpariaeth benodol i baragraff 4 fod yn gymwys i reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ran 2 o Atodlen 2 (rhoi'r cytundeb ymadael ar waith). Mae'r ffaith na chynhwyswyd unrhyw ddarpariaeth ar gyfer cymhwyso paragraff 4 i reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Atodlen 4 yn cefnogi ein dehongliad nad yw'r weithdrefn sifftio a ragwelir ym mharagraff 4 yn gymwys i reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Atodlen 4 - ac nad oedd bwriad iddi fod. (Ac, yn wir, nid yw'r weithdrefn honno yn gymwys i reoliadau Atodlen 4 a wneir gan Weinidogion y DU.)

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gobeithio bod hyn o gymorth. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid.

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink that reads "Julie James". The signature is written in a cursive, flowing style.

Julie James AC/AM

Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

Leader of the House and Chief Whip

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon